CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER

6 Ionawr 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, S Hughes, R Davies, E Williams, N Jones, A Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, A Evans, G Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies mater 5.2
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 4 Tachwedd 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir, Cyng S Hughes yn cynnig a Cyng D I Roberts yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae (pwyllgor)** - Gofynnwyd i'r Clerc weld unwaith eto os oes brydles ar y tir.
4.2	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.3	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - mewn llaw - mae Cyng J Evans yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.4	**Gwrychoedd ar y ffordd i Ceint** - mewn llaw
4.5	**Gor-yrru Penmynydd** - Bydd y Clerc yn gofyn am presenoldeb Gan Bwyll yn y pentref, hefyd am adroddiadau gor-yrru
4.6	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - mewn llaw (disgwyl am adroddiad gan Cyng R Edwards)
4.7	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r Clerc yn disgwyl am pris gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	Apêl Marchynys, Penmynydd (gwybodaeth yn unig - mae'r ymgeisydd wedi colli yr apêl)
5.2	41C133A Cais llawn i newid defnydd adeilad allanol i lety gwyliau ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth yn Cae Uchaf, Lon Penhesgyn - dim sylwadau. Trafodwyd y mater ar diwedd y cyfarfod ar ôl i Cyng R Davies gadael y cyfarfod
	Pennaeth Gwasanaeth Tai
5.3	Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod Tai Cymdeithasol ar Ynys Mon - penderfyniwyd ail codi y mater yn y cyfarfod nesaf
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - agenda 21.01.16 (gwybodaeth yn unig)
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Precept 2016/17 - penderfyniwyd peidio codi y precept am y flwyddyn 2016/17
	Llofnod **Cadeirydd** **03.02.16**

	Penderfyniwid talu:
7.2	Sion Jones £300 (gosod y beinciau)
7.3	Rhys Williams £450.00 (torri gwair)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Bydd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y rhai nad oedd yn gallu mynychu'r hyfforddiant mis Rhagfyr yn cael ei gynnal am 7o'r gloch yn Canolfan Penmynydd cyn ein cyfarfod misol nesaf 03.02.16
	Llofnod **Cadeirydd** **03.02.16**